LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

POLISI YMHOLIADAU

1. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ymrwymo i roi cymorth i ymwelwyr a darllenwyr drwy ymateb i'w ymholiadau yn amserol ac yn gwrtais. Ein bwriad yw darparu gwybodaeth yn eglur a chyson, gan bob amser ystyried anghenion y defnyddiwr.

2. Bydd y Llyfrgell yn ymateb i ymholiadau o bell, drwy ffôn (ar 01970-632933), trwy ein ffurflen ar-lein (www.llyfrgell.cymru/gwasanaethau/ymholiadau/ymholiadau-llgc/ffurflen-ymholiadau), trwy e-bost (gofyn@llgc.org.uk) neu trwy lythyr. Bydd yr un cwrteisi yn cael ei gynnig i ymholwyr o bell ag i ymholwyr yn yr adeilad, gan weithredu'r un safon o eglurder.

3. Cydnabyddir bob ymholiad o bell, gyda neges sydd yn nodi y gellir disgwyl ateb o fewn 10 diwrnod gwaith, ond gall ymholiad mwy cymhleth gymryd hyd at 20 diwrnod. Os yw ymholiad yn cael ei ystyried o dan dermau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, caniateir hyd at 20 diwrnod gwaith i ymateb.

4. Bydd staff yn ymdrechu i ateb bob ymholiad rhesymol, ond ni fydd staff yn medru dynodi mwy na hanner awr o amser yn ateb ymholiadau unigol. Os yw ymholiad y tu hwnt i'r gwaith y mae'r Llyfrgell yn gallu ei ddarparu, bydd yr ymateb yn adlewyrchu hyn, gan nodi'r rhesymau pam nad oedd gwaith pellach yn bosibl. Os yw ymholiadau yn debygol o gymryd mwy na hanner awr, bydd yr ymholydd yn cael ei gyfeirio at restr o ymchwilwyr annibynnol. Nid yw terfyn yn berthnasol i ymatebion ymholiadau sydd yn syrthio o dan dermau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

5. Bydd ymddiheuriad ac esboniad yn cael ei ddarparu os oes unrhyw oedi afresymol wrth ymateb i ymholiad. Bydd unrhyw gwynion yn dod o dan dermau ein Polisi delio â sylwadau a chwynion.

Adolygwyd Mai 2026